**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Ionawr 2020

Annwyl David

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr ynghylch gwaith dilynol y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar baratoi at Brexit. Croesawaf y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud yn y maes hwn, ac mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru hyd yma mewn perthynas â barn a chasgliadau'r Pwyllgor a amlinellir isod.

Yn sgil hynt Bil y Cytundeb Ymadael yn Senedd San Steffan, ymddengys na fydd yna ymadawiad heb fargen ddiwedd y mis hwn. Serch hynny, mae'r materion a godir gennych yn parhau'n berthnasol iawn o hyd, gan gynnwys yng nghyd-destun y posibilrwydd o adael y cyfnod Pontio heb gytundeb masnach yn ei le.

**<u>Porthladdoedd a Thrafnidiaeth</u>**

*“Roedd ein gwaith blaenorol yn dangos bod risg y byddai cludiant cargo a chludiant nwyddau sy’n osgoi porthladdoedd Cymru drwy ffin tir agored Iwerddon ynghyd â chludiant dirwystr o Ogledd Iwerddon i'r Alban neu Loegr. Ein dealltwriaeth ni, a dealltwriaeth y sector, yw y gallai'r Cytundeb Ymadael diwygiedig, leihau'r risg hon”.*

*“Pryder mwy dybryd yw'r asesiad o effaith bosibl y Cytundeb Ymadael diwygiedig ar brif borthladdoedd Ro-Ro Cymru - yn enwedig porthladd Caergybi. Mae Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Michael Gove, wedi dweud wrthym na chynhaliwyd asesiad o’r effaith a’i bod yn “anodd” cael asesiad effaith gyda “chymaint o ffactorau sy’n newid yn barhaus”.*

1. ***“Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu’r ffyrdd y mae’n pwyso ar Lywodraeth y DU i gynnal asesiad effaith llawn o’r Cytundeb Ymadael diwygiedig ar borthladdoedd Cymru”***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau Ariannol:** Dim o ddiweddaru'r Pwyllgor.

Fel yr ydych yn ei nodi yn eich llythyr, nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad llawn o unrhyw fath o effaith economaidd ei Chytundeb Ymadael arfaethedig, ac nid oedd swyddogion Llywodraeth y DU yn barod i drafod y cwestiynau polisi sy'n codi yn sgil eu cynnig yn ystod y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddar.

Mae un cwestiwn allweddol sydd â chysylltiad sylfaenol â phorthladdoedd Cymru, sef y rhyngweithio rhwng y ffin ar y tir rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon, a'r 'ffin ym Môr Iwerddon' y bydd Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn ei gosod. Er nad oedd Gweinidogion y DU yn gallu ateb cwestiynau ynghylch a fyddai yna wiriadau wrth i fferïau groesi o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr yn sesiynau craffu olaf Senedd ddiwethaf y DU, maent yn dal i fynnu na fydd yna ffin galed ar ynys Iwerddon ac na fydd yna wiriadau ar nwyddau sy'n croesi o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr ar fferi. Yn sgil yr uchod ac wrth aros am farn y Cyd-bwyllgor ar sut i reoli'r Protocol, ni fyddai’n rhesymol gosod gwiriadau ar nwyddau sy'n teithio o Weriniaeth Iwerddon i Gymru.

O ran traffig sy'n teithio o'r DU i Weriniaeth Iwerddon, mae honiadau Prif Weinidog y DU yn ystod yr etholiad na fydd angen gwiriadau yn hollol anghyson â thestun cyfreithiol y Cytundeb Ymadael. Serch hynny, yma eto, byddai'n ymddangos yn rhesymegol, o gofio'r cylchrediad rhydd mewn nwyddau ar ynys Iwerddon, y bydd y math o reolaethau a gwiriadau sydd eu hangen yr un fath ar gyfer nwyddau sy'n teithio o Brydain Fawr i'r Weriniaeth â'r rhai ar gyfer nwyddau sy'n teithio o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Rydym wedi comisiynu astudiaeth fach gan yr Arsyllfa Polisi Masnach ym Mhrifysgol Sussex i'n helpu i ddeall y goblygiadau i Gymru yn well. Cyhoeddir ei hadroddiad annibynnol ym mis Ionawr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael i'n helpu i ddeall y llif traffig a masnach drwy borthladdoedd Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall effaith ei phenderfyniadau ar Gymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fanteisio ar bob cyfle, ar lefel Gweinidogion a swyddogion, i bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch ei chynigion ac, yn benodol, i asesu'r effaith ar borthladdoedd Cymru. Rhagwelwn y bydd cyfarfod cynnar o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau’r UE) yn gyfle i godi hyn eto.

Byddem hefyd yn gobeithio y gallai'r Pwyllgor bwyso ar Weinidogion y DU ynghylch y pwynt hwn, yng nghyd-destun y broses cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil y Cytundeb Ymadael.

*“O ran gosod seilwaith newydd ym mhorthladdoedd Cymru, clywsom fod angen eglurder cyn gynted â phosibl ynghylch yr angen am seilwaith newydd o ganlyniad i'r Cytundeb Ymadael a'r Protocol diwygiedig ar Ogledd Iwerddon”.*

2. ***“Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i ni ar y paratoadau ar gyfer seilwaith newydd ym mhorthladdoedd Cymru (i ganiatáu gwiriadau tollau posibl a gwiriadau eraill), gan gynnwys manylion am drefniadau ariannu seilwaith o’r fath”.***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau ariannol:** Dim o ddiweddaru'r Pwyllgor. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gwrdd â'r angen am unrhyw seilwaith newydd ar gyfer ffiniau a fyddai'n codi o ganlyniad i'w phenderfyniadau o ran newidiadau i bolisi ffiniau.

Nid yw'n glir eto sut y bydd Llywodraeth y DU a'r Cyd-bwyllgor yn cynnig rheoli ffin y DU ag Iwerddon o dan y Protocol. Bydd y posibilrwydd o angen seilwaith newydd ym mhorthladdoedd Cymru, a natur y seilwaith hwnnw, yn dibynnu'n fawr ar hyn, a hefyd ar ganlyniad y trafodaethau masnach â'r UE. Hyd nes y bydd yr wybodaeth hon gennym, ni allwn ragdybio ble byddai angen unrhyw seilwaith o'r fath.

Gan mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw ffiniau, mewnfudo a thollau serch hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddi weithio'n adeiladol gydag awdurdodau porthladdoedd Cymru, a chyda Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod seilwaith priodol ar gyfer ffiniau yn ei le i hwyluso llif esmwyth traffig y ddwy ffordd drwy'r porthladdoedd, a bod cyllid priodol yn cael ei fuddsoddi i sicrhau seilwaith modern ac addas i'r diben ar gyfer ffiniau.

*“Nodwn fod creu Porthladdoedd Rhydd newydd yn un o amcanion datganedig yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol. Rydym yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi safbwynt wedi’i datblygu’n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch manteision ac anfanteision creu Porthladdoedd Rhydd newydd yng Nghymru a'r effaith y gallai creu Porthladdoedd Rhydd mewn rhannau eraill o'r DU ei chael ar Gymru”.*

3. ***“I’r perwyl hwnnw, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil bellach ar fanteision ac anfanteision posibl Porthladdoedd Rhydd i Gymru a’r effaith y gallai creu Porthladdoedd Rhydd mewn rhannau eraill o’r DU ei chael ar economi Cymru, er mwyn llywio sut mae’n ymgysylltu â gwaith y DU yn y maes hwn, gan rannu’r gwaith hwn gyda’r Pwyllgor ar ôl gwblhau’r ymchwil”.***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau ariannol**: Dim ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hasesu wrth i gyfeiriad Llywodraeth y DU ddod yn fwy eglur.

Mae'r cwestiwn o borthladdoedd rhydd yn fater ar wahân i baratoi at Brexit, ond mae'n ymddangos bod Llywodraeth newydd y DU wedi'i hymrwymo'n gadarn i'r cysyniad.

Mae hwn yn offeryn sydd, i ryw raddau, wedi bod ar gael i Lywodraeth y DU o fewn yr UE ond y mae wedi dewis peidio â'i ddefnyddio. Serch hynny, dylem fod yn glir bod porthladdoedd rhydd fel arfer yn fwy na dim ond offeryn tollau. Mae modelau porthladdoedd rhydd fel arfer yn dwyn ynghyd amrywiaeth o ysgogiadau rheoleiddiol gan gynnwys rheoliadau cynllunio, rheoliadau amgylcheddol a rheoliadau cyflogaeth. Felly gallai unrhyw gynigion i gymeradwyo porthladd rhydd yng Nghymru gael effaith sylweddol ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Yn yr un modd, gallai unrhyw gynigion i gymeradwyo porthladdoedd rhydd yn Lloegr effeithio ar ba mor gystadleuol ac atyniadol ydym ni fel lleoliad ar gyfer buddsoddiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir nad yw'n gwrthwynebu porthladdoedd rhydd mewn egwyddor, ond rhaid peidio â'u defnyddio fel drws cefn i danseilio safonau cymdeithasol, safonau amgylcheddol a safonau cyflogaeth. Os gweithredir porthladdoedd rhydd, rhaid eu defnyddio i hwyluso twf a datblygiad modern, gwirioneddol yn hytrach na symud swyddi a chyflogaeth i leoliadau newydd sydd â safonau rheoleiddiol is y tu hwnt i'n ffiniau tollau.

Ceir llawer o fodelau porthladdoedd rhydd o amgylch y byd sy'n defnyddio'r ysgogiadau hyn mewn ffyrdd a chyfuniadau gwahanol ac sydd â gwahaniaethau sylfaenol yn eu hamcanion a'u gweithrediad. Hyd yma, ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi bod gan Lywodraeth y DU ynglŷn â chynllunio polisi a'i gyfeiriad, ac o ystyried ehangder y senarios posibl, hyd nes y darperir yr eglurder hwn, ni allwn asesu'n llawn fanteision ac anfanteision porthladdoedd rhydd yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn yr argymhelliad ar y sail y byddwn, wrth i gyfeiriad polisi pendant ddechrau ymddangos gan Lywodraeth y DU, yn parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth, trafod â rhanddeiliaid a cheisio'r wybodaeth orau sydd ar gael i fod yn sail i'n trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r agenda hon. Serch hynny, rydym yn gwybod y byddai porthladdoedd rhydd yn gofyn am rywfaint o ryngweithio datganoledig, a rhaid i Lywodraeth y DU ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth ei hun yn sylweddol a'i rhannu, a'n trin ni fel partner cyfartal wrth gynllunio'r polisi a'r amcanion er mwyn i ni ddatblygu'r hyn a fyddai'n gweddu orau i Gymru.

4. ***"Gofynwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Panel Cynghori ar Borthladdoedd Rhydd, ac am ei farn ynghylch a yw'r panel yn rhoi ystyriaeth ddigonol i borthladdoedd Cymru"***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau ariannol:** Dim o ddiweddaru'r Pwyllgor.

Nid yw'r Panel Cynghori ar Borthladdoedd Rhydd wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru, na'r un Llywodraeth Ddatganoledig arall yn y DU. Rydym wedi'i gwneud yn glir na ddylai'r panel hwn feddu ar rôl o ran asesu a dyfarnu statws porthladd rhydd yn seiliedig ar geisiadau gan awdurdodau porthladdoedd. Yn ehangach, mae'r broses ymgeisio hon yn codi pryderon ynghylch a fydd amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn cael eu hystyried yn briodol, ac yn y pen draw ynghylch y gallu i ddefnyddio'r ceisiadau gan borthladdoedd i lywio ffordd strategol o ddynodi porthladdoedd rhydd.

Mae'n parhau'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n ystyrlon â ni i sicrhau, os datblygir model porthladdoedd rhydd, ei fod yn un sy'n gweithio i Gymru. Yn wir, o ystyried eu dibyniaeth ar reoleiddio o fewn cymhwysedd datganoledig a'u heffaith glir ar ddatblygu economaidd rhanbarthol, dim ond drwy gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU y gellir cyflenwi porthladdoedd rhydd yn briodol. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gydnabod bod rhaid i Lywodraeth Cymru feddu ar rôl benderfynu glir o ran asesu pa ardaloedd yng Nghymru ddylai fod yn gymwys am statws porthladd rhydd.

**<u>Bwyd a Ffermio</u>**

*"Rydym yn croesawu'r ymdrechion i agor marchnadoedd newydd ar gyfer y sector cig coch, ac fe wnaethom argymell yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2018 ar barodrwydd y sector bwyd a diod yng Nghymru fod strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru (a ddisgwylir yn 2020) yn gosod "targedau clir ac uchelgeisiol" ar gyfer cynyddu mynediad Cymru at farchnadoedd newydd i allforio cynhyrchion bwyd a diod".*

5. ***"Byddem yn croesawu diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn gan gynnwys amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth bwyd a diod newydd."***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau ariannol:** Dim o ddiweddaru'r Pwyllgor.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, ymgynghoriad ar gynigion ynghylch cyfeiriad a datblygiad y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd ein cynigion wedi'u seilio ar lawer iawn o drafod ymlaen llaw â busnesau a rhanddeiliaid. Amcanion strategol y cynigion oedd tyfu graddfa, gwerth a chynhyrchedd ein busnesau, rhoi budd i'n pobl a'n cymdeithas, a chreu a chyfleu enw byd-eang i Gymru fel 'Cenedl Fwyd'. Roedd y cynigion wedi'u gwreiddio'n gadarn yn Ffyniant i Bawb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a bod bwyd yn rhan o'r economi sylfaenol.

Cafwyd ymatebion gan bron i 90 o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys ystod eang o ymgynghoreion, y rhan fwyaf ohonynt o fusnesau a sefydliadau masnach. Roedd cefnogaeth gref dros y cynigion a'r weledigaeth a'r genhadaeth a gynigiwyd gennym. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd a fydd ar gael ar wefan Bwyd a Diod Cymru yn fuan. Rydym nawr yn ystyried sut i ddefnyddio'r adborth adeiladol hwn wrth inni ddatblygu'r cynigion ymhellach ar gyfer y cynllun strategol i'w cyhoeddi yn 2020.

*“Nodwn y pryderon sylweddol a fynegwyd inni gan gynrychiolwyr o’r diwydiant ffermio yn enwedig mewn perthynas ag effaith ansicrwydd parhaus; diffyg deddfwriaeth benodol i Gymru; ac yn fwy cyffredinol ynghylch datblygu polisi'r dyfodol yn y maes hwn, ar ôl Brexit”.*

6. ***“Rydym yn bwriadu crybwyll y rhain wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a gobeithiwn y byddant yn rhoi ystyriaeth iddynt yn rhagweithiol fel rhan o’u gwaith craffu parhaus ar Lywodraeth Cymru a’u gwaith polisi yn y maes hwn”***

Croesawn ddiddordeb parhaus y Pwyllgor yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoi ynghylch y diwydiant ffermio. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio â'r diwydiant, Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i asesu graddfa'r effaith ar draws ein holl sectorau amaethyddol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddadlau'r achos dros gyllid gan Drysorlys ei Mawrhydi i gefnogi'r sector cig coch yn achos ymadael heb gytundeb. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i drafod y materion sy'n wynebu'r sector cig coch, rhannu syniadau a cheisio adborth ar gynigion.

O ran deddfwriaeth benodol i Gymru, rydym yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn i osod y cyd-destun ar gyfer datblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru am y 15-20 mlynedd nesaf. Bydd y Papur Gwyn yn gosod y sail ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

O ran datblygu polisi yn y maes hwn at y dyfodol, yn gynharach eleni, cyhoeddwyd ein dogfen ymgynghori, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, a oedd yn egluro ein cynigion ar gyfer cynllun newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy ac yn ceisio barn ar sut yr ydym yn bwriadu cefnogi ffermwyr ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Daeth y prif ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref. Cawsom dros 500 o ymatebion o sylwedd a 3000 o ymatebion ymgyrch.

Rydym wrthi'n dadansoddi'r holl ymatebion a gafwyd a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion maes o law.

**<u>Cyfnod pontio a'r risg o scenario 'dim bargen'.</u>**

*"Rydym yn cydnabod y risgiau yn sgil senario 'dim bargen' ar ddiwedd y cyfnod pontio fel yr amlygwyd gan randdeiliaid, ac rydym yn parhau i fod â phryderon sylweddol am ganlyniad o'r fath a goblygiadau niweidiol hynny i Gymru."*

7. ***"Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod y sector [amaeth] yn cael cefnogaeth ddigonol os na fydd 'bargen' ar ddiwedd y cyfnod pontio (hynny yw, os na fydd cytundeb masnach rydd yn ei le erbyn diwedd y cyfnod pontio) ac i amlinellu pa wersi y mae wedi'u dysgu o'i pharatoadau yn sgil tri dyddiad gadael blaenorol Erthygl 50."***

**Ymateb:** Derbyn

**Goblygiadau ariannol:** Dim o ddiweddaru'r Pwyllgor. Gallai fod goblygiadau cost sylweddol yn sgil cefnogi'r sector amaethyddiaeth yn achos gadael trefniadau pontio heb gytundeb masnach ddiwedd mis Rhagfyr 2020.

Fel y cyfeirir ato uchod ac yn eich llythyr, mae'r bygythiad o adael y trefniadau pontio heb gytundeb masnach ddiwedd mis Rhagfyr 2020 yn parhau'n fygythiad go iawn, yn enwedig o gofio ymrwymiad diangen Llywodraeth y DU i beidio â cheisio estyniad i'r cyfnod pontio a fyddai'n caniatáu am berthynas yn y dyfodol sy'n diogelu buddiannau Cymru a'r DU gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi'n gyfrifol ac yn briodol at y berthynas yn y dyfodol â'r UE.

O ran parodrwydd y sector amaethyddiaeth (y cyfeirir ato'n benodol yn eich llythyr), bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i drafod y materion penodol sy'n wynebu'r diwydiant, rhannu ein syniadau wrth iddynt ddatblygu a cheisio adborth ar gynigion. Yn ogystal, mae Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU (UKAMMG) wedi'i sefydlu o dan drefniant rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill er mwyn cydlynu gwaith dadansoddi gwybodaeth am y farchnad o'r llywodraeth, diwydiant a ffynonellau eraill. Bydd UKAMMG yn monitro datblygiadau yn y prif ddiwydiant amaethyddol, yn ystyried ymatebion i ddatblygiadau anffafriol yn y farchnad ac yn darparu argymhellion os oes angen unrhyw ymyriadau. Bydd hyn yn cynnwys asesu effaith senario "dim bargen fasnach" ar ddiwedd y cyfnod pontio, ac effaith tariffau Sefydliad Masnach y Byd ar y sectorau amaethyddol.

O ran y gwersi a ddysgwyd wrth baratoi at dri dyddiad cau Erthygl 50, mae swyddogion amaethyddiaeth wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas â DEFRA a swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i gryfhau'r cyfathrebu a galluogi'r cydweithio sy'n angenrheidiol i ddadlau achos ar y cyd dros gyllid gan Drysorlys ei Mawrhydi i gefnogi'r sector cig coch yn achos gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach, ynghyd â'r holl oblygiadau ar gyfer rhwystrau sy'n dariffau a rhwystrau heblaw am dariffau y byddai hynny'n eu hachosi.

Yn ehangach, un o'r pwyntiau allweddol a nodwyd gennym wrth inni baratoi at y dyddiadau ymadael yn y gwanwyn a'r hydref oedd pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth y DU yn cydweithio'n ystyrlon â ni, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chydnabod y materion sydd o bwys hanfodol i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson y byddai Brexit heb gytundeb yn ganlyniad trychinebus i Gymru, ac y byddai'n achosi goblygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol. Byddai gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach yn achosi goblygiadau gwahanol, ond goblygiadau niweidiol iawn i Gymru serch hynny. Er gwaethaf ein gwrthwynebiad clir i ganlyniad o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi at bob perthynas bosibl yn y dyfodol â'r UE. Fel y cydnabu Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei ddiweddariad mis Medi i'r Pwyllgor, ein gwaith cynllunio ar gyfer Brexit yw'r "enghraifft fwyaf cynhwysfawr o weithio ar draws y Llywodraeth" y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweld Llywodraeth Cymru yn ei wneud hyd yma.

Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn cael y diweddariad hwn ar ein gwaith paratoi o gymorth, ac edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn â chi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister